

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

Archwilio

Iddewiaeth

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan

Phillip Vernon



Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

Archwilio Iddewiaeth

Tania ap Siôn

Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Yn y Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara'n dysgu am brif grefyddau'r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
- Archwilio Iddewiaeth
- Archwilio'r Eglwys y Plwyf
- Archwilio'r Eglwys Uniongred
- Archwilio Hindwâeth
- Archwilio Bwdhaeth
- Archwilio Sikhiaeth



Cyhoeddwyd gyntaf 2008 gan y Ganolfan Genedlaethol
Addysg Grefyddol,
Prifysgol Bangor
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan
Bear Lands Publishing,
Canolfan y Santes Fair,
Llys Onnen, Abergwyngregyn,
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw
Archwilio Iddewiaeth

Pwy yw eich ffrindiau? Ydych chi'n gwybod popeth amdanyn nhw? Ydyn nhw'n gwybod popeth amdanoch chi?

Stori yw hon am ffrindiau sydd ddim yn gwybod popeth am ei gilydd. Ond maen nhw'n dechrau dysgu am rai pethau mae eu ffrindiau'n eu gwneud, a pham maen nhw'n eu gwneud. Darllenwch eu stori ac efallai y dysgwch chi rywbeth newydd hefyd!





I Ymweld â synagog

Roedd hi'n gynnar ar fore Sadwrn, ac roedd Rhys a Sara yn eistedd yn eu cotiau o flaen y teledu. Doedden nhw ddim yn gallu ymgolli heddiw yn lluniau a seiniau eu hoff raglen deledu. Crwydrai eu llygaid tua'r ffenestr, ac roedd y ddau yn gwranddo am sŵn unrhyw symudiad ar y llwybr gro y tu allan i'r tŷ. Roedd Sara yn methu aros yn hwy.


'Rydw i'n mynd i ddisgwyl amdany'n nhw y tu allan,' meddai.

Hanner munud yn ddiweddarach, roedd y ddau, Sara a Rhys, yn swingio ar giât yr ardd. Rhys oedd y cyntaf i weld eu ffrindiau, Dan a Rebecca, yn cerdded tuag atyn nhw. Roedd Dan a Rebecca yn mynd â nhw i wasanaeth Shabbat yn eu synagog Ddiwygiedig. Wrth i'r ffrindiau gyfarch ei gilydd, sylwodd Sara fod Rebecca yn gwisgo cadwyn arian hardd.

'Dyma Seren Dafydd,' eglurodd Rebecca. 'Mae'n symbol sy'n cael ei defnyddio'n aml i ddangos i bobl fod rhywbeth yn Iddewig. Felly, pan fydda i'n gwisgo Seren Dafydd rydw i'n dangos i bobl fy mod i'n Iddewes.'

Pan gyrhaeddodd y pedwar y synagog, sylwodd Sara fod Seren Dafydd yno hefyd.


'Y synagog yw'r lle mae Iddewon yn dod ynghyd,' meddai Dan. 'Maen nhw'n dod at ei gilydd am amryw o wahanol resymau. Heddiw, mae'r Iddewon yn dod ynghyd yma i addoli Duw. Ond maen nhw hefyd yn dod at ei gilydd i ddysgu mwy am eu crefydd, i gyfarfod mewn grwpiau, priodasau, ac angladdau. Mae'r Seren Dafydd ar y wal yn dangos i bobl fod y synagog yn lle Iddewig.'



Dilynodd Rhys a Sara eu ffrindiau trwy ddrysau'r synagog.

Y peth cyntaf y sylwodd Rhys a Sara arno oedd dillad y bobl. Roedd pob dyn a bachgen yn gwisgo cap bach crwn, o'r enw kippah. Rhoddodd Dan un i Rhys i'w wisgo. Roedd pob dyn, y bechgyn hŷn, a rhai o'r merched yn gwisgo siôl weddi, o'r enw tallit.


'Rydyn ni'n gorchuddio'n pennau i ddangos parch a bod yn ostyngedig o flaen Duw, sy'n fwy na dim byd arall,' meddai Dan. 'Mae pedwar tasel ar y siôl, sydd wedi'u clymu â chwlwm arbennig. Mae'r taselau yma'n ein hatgoffa o'n dyletswydd i gadw deddfau Duw. Y deddfau yma sy'n ein harwain trwy fywyd. Pan fydda i'n cyrraedd tair ar ddeg oed, fe fydda i'n gwisgo siôl weddi i weddio. Fe fydd Rebecca yn gwisgo un pan fydd hi'n ddeuddeg oed os bydd hi'n dymuno gwneud hynny,' meddai Dan.



Aeth Dan a Rebecca â Rhys a Sara i eistedd gyda gweddill o'u teulu.

Yr ail beth y sylwodd Rhys a Sara arno oedd cwpwrdd pwysig yr olwg ym mhen blaen yr ystafell. Roedd yn edrych yn bwysig am fod y fynedfa iddo yn cael ei gwarchod gan ddau ddrws fel giataiu gloyw. Y tu ôl i'r drysau, gallai Rhys a Sara weld llenni melfed glas wedi'u haddurno'n gain. Mewn brodwaith ar y llenni, roedd llun dau lew brenhinol, yn gwarchod dwy lech garreg. Ac uwch ben y llechi, roedd llun coron.

'Arch yw enw'r cwpwrdd. Edrychwch yn ofalus. Mae rhywbeth arbennig iawn yn yr arch,' meddai Rebecca. 'Allwch chi weld y lamp sydd yn olau uwchben yr arch? Lamp ner tamid yw hi. Mae golau bob amser ar y lamp yma. Mae ei golau yn arwydd o bresenoldeb Duw yma gyda ni.'



Cyn hir, cododd pawb ar ei draed a hoelio'u llygaid ar yr arch. Daeth rhai o'r gynulleidfa i agor drysau'r arch a thynnu'r llenni'n ôl. Yno, mewn ysblander, roedd sgroliau enfawr, pob un wedi'i harwisgo mewn mantell o felfed hardd gydag addurn dwyfronneg arnyn nhw a chlychau ar eu brig.

'Dyma ein sgroliau Torah. Mae'r sgroliau'n cynnwys pum llyfr cyntaf y Beibl Hebraeg,' sibrydodd Rebecca, fel roedd un o'r sgroliau'n cael ei thynnu allan yn ofalus. Ar fantell y sgrôl roedd llun coeden mewn brodwaith hardd, a chanai clychau brig y sgrôl wrth iddi gael ei symud.

'Caiff y Torah ei alw'n goeden bywyd yn aml, am fod yr hyn y mae'n ei ddysgu i ni yn cynnig arweiniad i fywyd,' eglurodd Dan. 'Rydyn ni'n credu bod beth mae'r Torah yn ei ddysgu i ni yn arbennig iawn am ei fod wedi'i ysbrydoli gan Dduw.'



Cafodd sgrôl y Torah ei chodi a'i chario mewn gorymdaith at y ddarllenfa. Un o'r gynulleidfa oedd yn darllen. Gan lafarganu'n bwyllog, fe ddarllenodd ran o'r Torah yn Hebraeg. Defnyddiai bwyntydd arian i ddilyn y geiriau, rhag iddo gyffwrdd y sgrôl â'i fysedd.

Ar ôl iddo orffen darllen, pregethodd y rabi bregeth ar y darlleniad, ac yna roedd pawb yn gweddio.

'Athro Iddewig yw'r rabi, ac mae'n arbenigwr ar y gyfraith Iddewig,' eglurodd Rebecca. 'Mae'r Torah yn hen iawn, ac mae'r rabi yn ein helpu ni i ddeall y Torah trwy egluro beth mae'n ei olygu.'

Yn y synagog, dysgodd Rhys a Sara fod Dan a Rebecca yn addoli un Duw, sydd bob amser gyda nhw. Y Torah yw eu harweiniad i fywyd gan ei fod wedi'i ysbrydoli gan Dduw. Ac mae'r rabi yno i'w helpu i ddeall beth mae'r Torah yn ei ddysgu iddyn nhw.






2 Dathlu'r Sukkot

Roedd Rhys a Sara wrth eu bodd yn gwneud pethau. Fe allen nhw droi bocs cardfwrdd yn blasty crand, neu'n gastell gwych. Gallai darnau o bapur fod yn wennol ofod yn cludo twristiaid i Mars neu'n awyren ar gyrch awyr dirgel. Bu bron iddyn nhw wneud tŷ yn y goeden un tro, ond fe rwystrodd eu mam nhw gan ddweud fod hynny, yn ddi-os, yn rhy beryglus.

Rywbyrd yn gynnwys yn yr hydref oedd hi, ac roedd Rhys a Sara yn gwneud rhywbeth neilltuol o gyffrous yng ngardd gefn Dan a Rebecca. Roedden nhw'n helpu i adeiladu caban arbennig o'r enw sukkah. Roedd teulu Dan a Rebecca yn paratoi i ddathlu'r ŵyl Iddewig, Sukkot, ac fe fyddai'r caban yn rhan bwysig o'r dathlu.

Gyda help tad Dan a Rebecca, a diagram, roedd y plant yn gorffen addurno'r caban. Fe roeson nhw ganghennau deiliog ar ben y caban i greu to iddo. Fe wnaethon nhw osod bwrdd a chadeiriau ynddo, a gosod amrywiaeth o ffrwythau a llysiau i hongian o'r nenfwd. O'r diwedd, roedd y sukkah yn barod!

'Yn y Torah, mae Duw yn gofyn i ni ddathlu gŵyl y Sukkot trwy fyw am saith diwrnod mewn cabanau syml,' meddai Dan. 'Ond ym Mhrydain, mae hi'n rhy oer a gwlyb i ni dreulio ein holl amser yn y caban. Felly, mae llawer o Iddewon yn ufuddhau i Dduw trwy dreulio rhywfaint o amser bob dydd yn y caban, yn bwyta neu'n ymlacio yng nghwmni'r teulu a'u ffrindiau.'



Gwrandawodd Rhys a Sara ar dad Dan a Rebecca yn traddodi bendith dros gwpanaid o win.


‘Bendith dros fyw yn y sukkah yw hon,’ meddai.

‘Bendigedig wyt ti, Arglwydd, ein Duw, brenin y bydysawd, sydd wedi ein sancteiddio â'i orchmynion ac wedi'n gorchymyn i fyw yn y sukkah. Amen.’

‘A dyma fendith arall y byddwn ni'n ei dweud ar noson gyntaf yr ŵyl,’ ychwanegodd.

‘Bendigedig wyt ti, Arglwydd, ein Duw, brenin y bydysawd, sydd wedi ein cadw'n fyw, a'n cynnal, a'n galluogi ni i gyrraedd y tymor hwn. Amen.’

Ar ôl y ddwy fendith, cafodd Rhys a Sara eu gwahodd i rannu pryd o fwyd gyda theulu Dan a Rebecca yn y sukkah.



Fel roedden nhw'n eistedd o gwmpas y bwrdd bach yn y sukkaħ yn bwyta'u swper, fe ddysgodd Rhys a Sara fwy am wyl y Sukkot.

'Pam fod Duw yn gofyn i chi fyw mewn caban am saith diwrnod?' holodd Rhys, mewn penbleth.

'Lawer iawn, iawn o flynyddoedd yn ôl, fe fu ein hynafiaid ni'n teithio am 40 mlynedd trwy'r anialwch. Roedden nhw'n teithio o wlad yr Aifft i wlad yr oedd Duw wedi'i haddo iddyn nhw,' eglurodd Dan. 'Am 40 o flynyddoedd, fe fu ein pobl ni'n byw mewn cabanau dros dro, cabanau y gallen nhw'u cludo gyda nhw fel roedden nhw'n teithio. Fe wnaethon nhw ddioddef caledi mawr yn yr anialwch, ond fe ofalodd Duw amdanyn nhw. Pan oedden nhw'n newynu, fe roddodd Duw sofflieir a manna iddyn nhw i'w fwyta. Pan oedden nhw'n sychedig, fe roddodd Duw ddŵr iddyn nhw.'


Edrychodd Rhys a Sara i fyny trwy ganghennau deiliog to'r caban, a gweld y sêr. Roedden nhw'n dychmygu hynafiaid Dan a Rebecca yn gwneud yr un peth, amser maith yn ôl.



‘Pan fyddwn ni’n treulio amser yn y sukka, fe fyddwn ni’n cofio hanes ein pobl yn yr anialwch,’ meddai Rebecca. ‘Byddwn yn cofio bod Duw, fel y gofalodd amdanyn nhw, yn gofalu amdanom ninnau hefyd. Mae’n hawdd i ni anghofio hyn yn ein cartrefi cyffyrddus, lle mae gennym ni ddigon i’w fwyta ac i’w yfed.’

Rhoddodd mam Dan a Rebecca ragor o fwyd i Rhys a Sara, a dweud,

‘Pan fyddwn ni’n treulio amser yn y sukka, fe fyddwn ni’n cofio mai gwesteion Duw oedd ein pobl yn yr anialwch. Fe roddodd Duw fwyd a diod iddyn nhw. Rydyn ni’n cofio hyn trwy wahodd gwesteion i’n sukka, a chynnig rhywbeth iddyn nhw i’w fwyta ac i’w yfed. Heno, Rhys a Sara yw ein gwesteion.’



Traddododd Dan fendith arall, Bendith y Pedwar Rhywogaeth.

‘Bendigedig wyt ti, Arglwydd, ein Duw, brenin y bydysawd, sydd wedi ein sancteiddio â’i orchmynion ac wedi’n gorchymyn i godi’r lulav. Amen.’

Yn un llaw, daliodd Dan ganghennau tri phlanhigyn – palmwydd, myrtwydd, a helyg. Yn ei law arall, daliodd ffrwyth o’r enw etrog. Chwifiodd y rhain i chwe chyfeiriad – gogledd, de, dwyrain, gorllewin, i fyny, ac i lawr.

‘Mae Dan yn llawenhau o flaen Duw,’ eglurodd Rebecca. ‘Mae’r planhigion yn cael eu chwifio i bob cyfeiriad i ddangos bod Duw ym mhob man.’

Roedd Rhys a Sara wedi mwynhau adeiladu’r sukkah a chael bwyta ynddo. Roedden nhw wedi dysgu bod Sukkot yn wyl i ddatlu’r ffordd y gofalodd Duw am hynafiaid Dan a Rebecca yn yr anialwch. Ond y peth pwysicaf yw bod Dan a Rebecca yn credu bod Duw, hyd heddiw, yn parhau i ofalu amdany’n nhw.





3 Deall y Torah

Fel brawd a chwaer, roedd Rhys a Sara yn ffrindiau eithaf da. Ond roedd heddiw'n wahanol. Roedden nhw wedi treulio'r rhan fwyaf o'r bore yn dadlau â'i gilydd am bethau bach oedd yn bwysig iddyn nhw.

- 8.00am Sara yn mynnu cadw'r tegan oedd yn y bocs grawnfwyd. Rhys a Sara yn dadlau.
- 8.30am Rhys yn cicio pêl droed i wyneb Sara, yn anfwriadol. Sara a Rhys yn dadlau.
- 9.30am Sara yn gwrthod symud er mwyn i Rhys allu gweld y teledu. Rhys a Sara yn dadlau.
- 10.45am Sara yn dod o hyd i'w microsgop dan wely Rhys. Sara a Rhys yn dadlau.
- 11.00am Mam Rhys a Sara yn dweud ei bod hi wedi hen flino ar sŵn y ddau ohonyn nhw. Pawb yn dadlau.
- 11.15am Mae Rhys, Sara, a'u mam yn cytuno ar dair rheol i roi stop ar yr holl ddadlau. Maen nhw'n ysgrifennu'r rhain a'u gosod ar y wal. Maen nhw'n addo ceisio cadw'r rheolau yma.

Yn ddiweddarach, aeth Rhys a Sara draw i dŷ Dan a Rebecca. Gwrandawodd Dan a Rebecca yn llawn diddordeb pan soniodd Rhys a Sara wrthyn nhw am reolau newydd eu teulu. Meddyliodd Rebecca yn ddwys.

'Fel Iddewon, mae gan Dan a finnau reolau rydyn ni'n ceisio'u cadw hefyd,' meddai. 'Rydyn ni'n eu galw nhw'n orchmynion. Duw sydd wedi rhoi'r gorchmynion yma i ni, ac maen nhw'n ein helpu ni i fyw gyda'n gilydd yn deg ac yn heddychol. Mae'r gorchmynion i'w cael yn ein llyfr sanctaidd, y Torah.'



Dywedd Rebecca wrth Rhys a Sara fod 613 o orchmynion yn y Torah.

‘Y Deg Gorchymyn yw gorchmynion enwocaf y Torah,’ meddai. ‘Mae Iddewon yn credu bod Duw wedi rhoi’r rhain i Moses ar Fynydd Sinai. Mae’r pedwar gorchymyn cyntaf yn ymwneud â’n perthynas ni â Duw.’

Rhestrodd Rebecca nhw.

- 1 Myfi yw’r ARGLWYDD dy Dduw. Na chymer dduwiau eraill ar wahân i mi.
- 2 Na wna iti ddelw gerfiedig, nac ymgryma iddynt na’u gwasanaethu.
- 3 Na chymer enw’r ARGLWYDD dy Dduw yn ofer.
- 4 Cofia’r dydd Saboth i’w gadw’n gysegredig.

‘Rydyn ni angen y gorchmynion yma i’n hatgoffa ni i addoli un Duw yn unig, yr un a greodd bopeth, ac sy’n Arglwydd ar bopeth,’ eglurodd. ‘Os gwnawn ni gadw’r pedwar gorchymyn yma, rydyn ni’n fwy tebygol o gadw’r gorchmynion eraill, am ein bod yn cofio eu bod yn dod gan Dduw.’



‘Ie,’ cytunodd Dan. ‘Mae Duw yn gwybod bob amser beth sydd orau i ni. Mae’r chwe gorchymyn arall yn ymwneud â’n perthynas ni â phobl eraill.’

Rhestrodd Dan nhw.

- 5 Anrhydedda dy dad a’th fam.
- 6 Na ladd.
- 7 Na odineba.
- 8 Na ladrata.
- 9 Na ddwg gamdystiolaeth yn erbyn dy gymydog.
- 10 Na chwennych ddim sy’n eiddo i’th gymydog.

‘Mae ein pobl wedi addo cadw gorchmynion Duw. Rydyn ni’n gwybod, pan fyddwn ni’n cadw gorchmynion Duw, ein bod ni’n rhoi esiampl dda i eraill ac yn anrhydeddu Duw. Mae’n gyfrifoldeb mawr!’ meddai Dan.



Meddylodd Rhys a Sara am reolau newydd eu teulu nhw, ac am y gorchmynion yr oedd Dan a Rebecca'n ceisio'u cadw. Roedden nhw'n gallu gweld dwy broblem fawr gyda rheolau a gorchmynion. Y broblem fawr gyntaf yw y gallan nhw fod yn anodd eu deall yn iawn. Sut rydych chi'n cadw'r dydd Saboth yn gysegredig? Sut rydych chi'n anrhydeddu'ch tad a'ch mam?

Gofynnodd Sara i Dan a Rebecca, 'Felly, pwy sy'n eich helpu chi i ddeall y 613 o orchmynion? Pwy sy'n egluro i chi beth yw eu hystyr?'

'Y rabi. Mae pob rabi yn athro Iddewig ac yn arbenigwr ar y gyfraith,' atebodd Dan. 'Y rabiaid sydd wedi ein helpu i ddeall gorchmynion Duw ar hyd y canrifoedd, ac maen nhw'n parhau i'n helpu ni i ddeall gorchmynion Duw heddiw.'




Y broblem fawr arall yw bod rheolau a gorchmynion yn hawdd iawn eu torri.

‘Beth sy’n digwydd os byddwch chi’n torri gorchmynion Duw?’ holodd Rhys.

‘Mae Duw, yn y Torah, yn gofyn i ni edifarhau pan fyddwn ni’n torri ei orchmynion,’ atebodd Rebecca. ‘Bod yn ddrwg gennym am beth rydyn ni wedi’i wneud yw ystyr hynny. Yna, rydyn ni’n penderfynu na fyddwn ni’n gwneud yr un peth eto. Ar ôl hynny, rydyn ni’n ceisio unioni’r cam gyda’r rhai y gwnaethon ni gam â nhw. Gobeithio, wedyn, y bydd y rhai y gwnaethom ni ddrwg iddyn nhw yn maddau i ni.’

Roedd Rhys a Sara wedi dysgu rhai pethau newydd am Dan a Rebecca. Roedden nhw wedi dysgu bod 613 o orchmynion i’w cael yn y Torah. Mae’r gorchmynion yn atgoffa lldewon i addoli un Duw yn unig, ac maen nhw’n eu helpu i gyd-fyw’n heddychlon â phobl eraill. Mae llawer o lldewon wedi addo cadw’r gorchmynion yma. Os ydyn nhw’n torri gorchmynion, mae angen iddyn nhw edifarhau, a chael maddeuant gan y rhai y gwnaethon nhw ddrwg iddyn nhw.





4 Gofalu am bobl eraill a'r byd

Roedd Rhys a Sara yn sefyll y tu allan i ddrws ffrynt tŷ Dan a Rebecca. Tra roedden nhw'n aros i'w ffrindiau agor y drws iddyn nhw, sylwodd Rhys ar rywbeth doedd e ddim wedi'i weld o'r blaen.

'Beth yw'r peth yma?' holodd Rhys, gan bwyntio at blac metel oedd wedi'i osod ar yr ochr dde i'r drws.

Edrychodd Sara arno'n ofalus a chodi ei hysgwyddau.

'Does gen i ddim syniad,' meddai.

Dyna pryd yr agorodd y drws, ac roedd Dan a Rebecca'n sefyll yno.


'Rydych chi'n edrych ar ein mezuzah!' meddai Rebecca. 'Fe ddylai hwn fod ar ffrâm drws adeiladau a chartrefi Iddewig. Y tu mewn i bob mezuzah mae sgrôl ag adnodau pwysig o'r Torah wedi'u hysgrifennu arni. Y Shema yw enw'r adnodau yma, sy'n dechrau fel hyn.'

'Clyw, O Israel, y mae'r Arglwydd ein Duw yn un Arglwydd.
Câr di yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon
ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth.'

Roedd Rhys a Sara yn llawn diddordeb.

'Pam rydych chi'n gosod y geiriau yma ar ffrâm drws eich tŷ?' holodd Rhys.

'Mae Duw, yn y Torah, yn gofyn i ni wneud hyn am reswm arbennig,' meddai Rebecca. 'Mae'r mezuzah yno i'n hatgoffa ni i ufuddhau i orchmynion Duw.'




Arweiniodd Dan a Rebecca Rhys a Sara i'r ystafell fwyta.

'Rydyn ni'n cael cyfarfod teuluol,' meddai Dan.

Fe ymunodd y pedwar â rhieni Dan a Rebecca, oedd yn eistedd wrth y bwrdd. Ar y bwrdd yr oedd taflenni yn hysbysebu gwaith gwahanol elusennau. Roedd rhai elusennau'n helpu plant. Eraill yn helpu anifeiliaid. Roedd rhai elusennau'n gwneud gwaith ymchwil i afiechydon a chlefydau. Ac elusennau eraill yn cefnogi cymunedau mewn gwledydd pell. Roedd teulu Dan a Rebecca yn ceisio dewis dwy elusen y gallen nhw'u cefnogi.

Ar ganol y bwrdd yr oedd bocs.

'Dyma ein bocs elusen,' eglurodd Dan. 'Rydyn ni'n rhoi arian yn hwn bob tro y gallwn ni. Rydyn ni'n caru Duw ac yn ei wasanaethu yn y ffordd rydyn ni'n ymddwyn. Un ffordd o garu a gwasanaethu Duw yw trwy ofalu am y pethau y mae Duw wedi'u creu. Mae hyn yn golygu gofalu am bobl, am anifeiliaid, ac am yr amgylchedd.'



Siaradodd tad Dan a Rebecca, a gwrandawodd pawb.

‘Yn y Torah, mae Duw wedi rhoi llawer o orchmynion i ni am sut y dylem ni drin pobl eraill,’ meddai. ‘Y gorchymyn pwysicaf o’r rhain yw - Câr dy gymydog fel ti dy hun. Nid yn unig peidio â niweidio pobl y mae hyn yn ei olygu, mae disgwyl i ni hefyd helpu pobl mor aml ag y gallwn ni. Mae elusen yn rhan bwysig o’r gyfraith Iddewig.’

Ar ôl trafod, cytunodd Dan a Rebecca a’u rhieni y bydden nhw’n rhoi peth o’r arian at elusen oedd yn gweithio â phlant.



Yna, siaradodd mam Dan a Rebecca, a gwrandawodd pawb.

‘Yn y Torah, mae Duw wedi rhoi llawer o orchmynion i ni ynghylch trin anifeiliaid a’r amgylchfyd â pharch a gofal,’ meddai. ‘Ond mae gen i fy hoff ddysgeidiaeth Iddewig, sydd ddim i’w chael yn y Torah. Mae’n cynnwys neges bwysig i bob un ohonom ni heddiw.’

Darllenodd mam Dan a Rebecca ran o’r Ecclesiastes Rabbah, oedd yn dweud:

‘Edrych ar y pethau a greais! Gwêl mor hardd a pherffaith ydynt!

Creais hwy oll er dy fwyn di.

Paid â difrodi a llygru fy myd,

oherwydd os llygri di ef, ddaw neb ar dy ôl di i’w wneud yn iawn.’

Meddyliodd pawb am y byd rhyfeddol roedden nhw’n byw ynddo.

Roedden nhw’n meddwl am y moroedd, y fforestydd, a’r awyr i gyd, pob rhan o’r byd yn llawn i’r ymylon o fywyd.



Dywedodd mam Dan a Rebecca rywbeth arall.

‘Mae’r byd yn rhoi popeth sydd arnom ei angen i ni,’ meddai. ‘Ond rhaid i ni ofalu am y byd, o ddifri. Mae’n hawdd iawn dinistrio’r byd os gwnawn ni gymryd gormod ohono, neu ei lygru. Ein cyfrifoldeb ni yw’r byd!’

Ar ôl trafod, cytunodd Dan a Rebecca a’u rhieni y bydden nhw’n rhoi peth o’r arian at elusen oedd yn ymwneud â gwarchod y fforestydd glaw. Fe wnaethon nhw gytuno hefyd y byddai’r teulu yn gwneud mwy o ymdrech i ailgylchu cymaint o bethau â phosib.

Roedd y cyfarfod teuluol yma wedi rhoi llawer o bethau i Rhys a Sara feddwl amdany’n nhw. Mae Dan a Rebecca yn caru ac yn gwasanaethu Duw trwy ufuddhau i orchmynion Duw. Yn y Torah mae gorchymyn iddyn nhw ofalu am ei greadigaeth, sy’n cynnwys pobl, anifeiliaid, a’r amgylchedd. Un o’r ffyrdd y maen nhw’n gofalu am greadigaeth Duw yw trwy roi arian at elusen mor aml â phosib.





5 Dysgu am kashrut

Roedd Rhys a Sara yn teimlo'n hapus iawn. Roedd eu modryb, Anti Hafwen wedi dod i aros atyn nhw am ychydig ddyddiau, ac roedd hi wedi addo mynd â nhw i rywle arbennig.

Wedi trafodaeth hir, roedden nhw wedi cytuno i deithio ychydig filltiroedd allan o'r dre i fferm fechan oedd ar agor i ymwelwyr. Yn ôl pob golwg, roedd digonedd o bethau difyr i'w gwneud yno.

'Gaiff ein ffrindiau ni, Dan a Rebecca, ddod hefyd plis?' gofynnodd Sara.


'Wrth gwrs,' cytunodd Anti Hafwen, yn siriol.

Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, roedd Rhys a Sara yn dysgu pob math o sgiliau newydd gyda Dan a Rebecca. Fe gawson nhw ddysgu sut i odro buwch. Fe fuon nhw'n brwsio a thrin ceffylau, a chael eu marchogaeth am dro bach. Fe gawson nhw fwydo wŷyn bach â photel o lefrith, a gwyllo defaid yn cael eu cneifio.

Ar ôl hyn i gyd, roedd pawb yn teimlo'n flinedig ac eisiau bwyd. Felly, awgrymodd Anti Hafwen y bydden nhw'n mynd i gaffi'r fferm i gael diod a rhywbeth i'w fwyta.

Wedi eistedd wrth y bwrdd yng nghaffi'r fferm, edrychodd pawb yn fanwl ar y fwydlen.

'Rhaid i Dan a fi fod yn ofalus beth ydyn ni'n ei fwyta,' meddai Rebecca. 'Mae hyn am fod deddfau bwyd gan Iddewon, deddfau sy'n cael eu galw'n kashrut, ac mae'r rhain yn effeithio ar beth rydyn ni'n ei fwyta.'



‘Dywedwch ragor wrthym ni am eich deddfau bwyd,’ meddai Anti Hafwen. ‘Wedyn, fe allwn ni i gyd chwilio’r fwydlen am rywbeth i chi i’w fwyta.’

Meddyliodd Dan yn ofalus cyn siarad. Fe wyddai bod deddfau bwyd yn bethau eithaf cymhleth.

‘Yn ein llyfr sanctaidd, y Torah, mae nifer fawr o ddeddfau bwyd,’ meddai Dan. ‘Mae’n bosib rhannu’r deddfau bwyd yma’n ddau brif grŵp. Mae’r grŵp cyntaf o ddeddfau’n delio â’r mathau o fwyd y cawn ni eu bwyta. Er enghraifft, mae’r Torah yn dweud y cawn ni fwyta cig buwch, gafr, carw, dafad, cig cyw iar, hwyaden, a physgod sydd ag esgyll a chen, ond chawn ni ddim bwyta cig mochyn. Fe gawn ni fwyta pob math o ffrwythau a llysiau.’

Chwiliodd Sara trwy’r fwydlen.

‘Felly, chewch chi ddim bwyta bacwn na selsig, ond mae yma nifer o bethau eraill yma y gallwch chi eu bwyta,’ meddai.




Chwarddodd Dan. ‘Ond dydi pethau ddim mor syml â hynny chwaith,’ meddai. ‘Y rheswm am hyn yw bod yr ail grŵp o ddeddfau’n delio â’r ffordd rydyn ni’n paratoi bwyd. Er enghraifft, mae’r Torah yn dweud y dylai’r cig rydyn ni’n ei fwyta fod yn gig anifail sydd wedi’i ladd a’i drin mewn ffordd arbennig sydd gan yr Iddewon. Hefyd, ddylai Iddewon ddim bwyta cig a chynnyrch llaeth yn yr un pryd bwyd.’

Edrychodd Rhys ar y fwydlen eto.

‘Mae’n debyg mai’r peth gorau fyddai dewis bwyd llysieuol,’ awgrymodd.

Cytunodd Dan a Rebecca, ac fe wnaethon nhw ddewis caserol llysieuol.




Tra roedden nhw'n bwyta, soniodd Rebecca ragor wrth Rhys a Sara am ddeddfau bwyd Iddewig.

'Oherwydd mai Iddewon Diwygiedig ydyn ni, dydi ein teulu ni ddim yn cadw'n hollol gaeth at y deddfau bwyd Iddewig yma,' meddai.

'Ond rydyn ni bob amser yn ceisio gofalu nad ydyn ni'n bwyta cig mochyn, na chig anifeiliaid sydd heb gael eu lladd yn y ffordd Iddewig. Mae gennym ni ewythr, Yncl Reuben, sy'n Iddew Uniongred, ac mae e'n cadw'n gaeth iawn at y deddfau. Fe ddylech chi weld ei gegin!'

Disgrifiodd Rebecca sut roedd Yncl Reuben yn hollol o ddifri ynghylch peidio â chymysgu cig a chynnyrch llaeth. Roedd hyd yn oed yn defnyddio gwahanol lestri ac offer coginio ar gyfer y gwahanol fwydydd. Roedd yn cadw'r llestri a'r offer coginio a ddefnyddiai ar gyfer cig yn un pen i'r gegin, a'r llestri a'r offer coginio ar gyfer y cynnyrch llaeth ym mhen arall y gegin.




Roedd Rhys yn awyddus i wybod pam roedd deddfau bwyd gan Iddewon.

‘Mae rhai pobl yn meddwl fod y dull Iddewig o fwyta yn ddull iachus, a dyna pam y mae Duw, yn y Torah, wedi gofyn iddyn nhw wneud hyn. Ond dydi honno ddim yn ddadl dda iawn,’ meddai Dan. ‘Mae ein teulu ni yn cadw at rai o’r deddfau yma am eu bod yn gwneud i ni deimlo mai Iddewon ydyn ni, ac am fod Duw wedi gofyn i ni wneud hynny.’

Roedd Rhys a Sara wedi mwynhau ymweld â’r fferm gyda Dan a Rebecca ac Anti Hafwen. Roedden nhw nawr yn deall eu ffrindiau Iddewig yn well. Roedden nhw wedi dysgu bod llawer o Iddewon yn cadw at deddfau bwyd o’r enw kashrut, ac mae’r rhain i’w cael yn y Torah. Ond dydi pob Iddew ddim yr un fath. Mae rhai Iddewon yn cadw at y deddfau yn llawer mwy caeth nag eraill.

Y noson honno, cyn i Rhys a Sara fynd i gysgu, cytunodd y ddau y bydden nhw’n dechrau rhannu rhai o’u pethau arbennig nhw gyda Dan a Rebecca. Efallai yfory ...



Mae Rhys a Sara yn cael gwahoddiad i wasanaeth Shabbat gan eu dau ffrind Iddewig. Enwau eu ffrindiau yw Dan a Rebecca. Yn y gwasanaeth maen nhw'n gweld pobl yn cario sgrôl enfawr o gwmpas y synagog. Beth sydd wedi'i ysgrifennu ar y sgrôl, a pham fod y sgrôl mor bwysig i ffrindiau Rhys a Sara?

Trwy gyfrwng caban arbennig, bore o ddadlau, rhywbeth arbennig ar ffrâm y drws, ac ymweliad â fferm leol, cawn wybod bob yn dipyn beth yw pwrpas y sgrôl.

